

Disgrifiad o Drywydd y Llwybr Arfordirol RHAN 4: PORTH AMLWCH - MOELFRE

O'r llithrfa, dilynwch y llwybr gwrychog i ddod allan yn yr harbwr. Cerddwch ar hyd y cei heibio'r tŵr gwyllo. Cerddwch i fyny ochr dde **Caffi'r Llofft Hwyliau ('Sail-Lofft')**. Croeswch y ffordd a dilynwch y lôn i'r maes parcio. Ewch drwy'r maes parcio, ac allan ar y llwybr. Ewch drwy giât mochyn y tu ôl i'r tŷ a dilynwch lwybr drwy lecyn grugog o gwmpas cilfach **Llam Carw** i fyny at giât mochyn. Dilynwch lwybr treuliedig ac ewch dros ddwy bompren fechan. Ewch drwy giât mewn wal. Daliwch i ddilyn y llwybr, dros draen ac i lawr dau ris. Croeswch wal derfyn, i ddod allan drwy giât yn **Ffynnon Eilian**. Croeswch nant, ewch i fyny rhiw, drwy giât, croeswch gae a thrwy giât arall. Ewch i fyny set o risiau cerrig, ac i lawr y rhiw i bont fechan a giât.

Ym **Mhorthyrychen**, croeswch bont fechan arall a thrwy giât. Ewch i'r chwith rownd ymyl y cae o'ch blaen, drwy giât ac i lawr i lecyn o eithin. Ewch drwy giât mochyn i ymuno â llwybr caeedig sy'n eich arwain rownd i **Borth Eilian**. Ewch drwy giât arall i ddod allan ar y ffordd.

Ewch heibio'r llithrfa i lawr i'r traeth, ac ewch i'r chwith o flaen y tŷ gwyn i fyny'r ffordd. Croeswch y grid gwartheg a dilynwch y lôn. Cyn y fynedfa i **Drwyn Eilian**, trowch i'r dde ar lwybr (fe geir llwybrau i fynd ar Drwyn Eilian ei hun). Dilynwch y wal ar y dde i chi, drwy'r giât mochyn ac, yn union cyn y polion telegraff, ewch i'r dde. Croeswch gae i lawr i'r arfordir, ac i fyny at giât ym **Mhorth y Corwgl**. Ewch i fyny'r rhiw, drwy giât mochyn a dilynwch yr arfordir gan fynd i'r chwith yn **Ogo'r Rhedyn**. Ewch i lawr i bant dros gamfa, allan i gae a thrwy giât. Ewch i'r dde a byddwch yn croesi pont dros nant yn **Freshwater Bay**. Ewch i fyny'r rhiw gan ddod allan mewn cae a chan gerdded yn gyfochrog â'r arfordir. Ewch dros bompren fechan mewn pant ac ar ôl mynd i fyny ac i lawr un neu ddau o risiau, byddwch yn pasio llwybr cyhoeddus i'r arfordir. Ewch yn eich blaen i lawr y rhiw, gan gadw i'r chwith i groesi dwy ffos ddraenio a cherddwch ar draws y cae. Ewch i lawr rhywfaint o risiau a chroeswch bompren a chadwch i'r dde gan fynd i fyny rhiw at giât y tu cefn i **Borthygwichiaid**. Ewch drwy'r giât a dilynwch y wal ar y dde. Ar ôl croesi draen, ewch i'r chwith tua'r arfordir. Dilynwch yr arfordir drwy fwlch yn y wal, a chan gadw'n agos at yr arfordir, ewch drwy fwlch yng ngwaelod ffens. Pasiwch dros ddwy bompren fechan islaw **Rhos-Mynach Isaf**, a chroeswch bowlen laswelltog serth, i fyny at giât. Croeswch lwybr arall, dros giât a thrwy borth, gan fynd tuag at yr arfordir unwaith eto. Dilynwch derfyn chwith y cae, croeswch nant ym **Mhorth yr Aber**, i fyny set o risiau ac ar hyd gwaelod cae. Ar ôl cyrraedd llinell o goed ffynidwydd ('*Scots Pine*'), trowch tua'r tir a dilynwch derfyn y cae drwy giât mochyn a

thros dair camfa. Gan ymuno â thrac, cariwch yn syth ymlaen, dros gamfa gul, a thros gamfa arall i ddod allan ar lôn wrth dŷ.

Cariwch yn syth yn eich blaen, heibio '*Keeper's Lodge*' ar y dde, ac yn union ar ôl ychydig o gytiau fferm, a chyn **Plas Uchaf** ar y dde, trowch i'r chwith drwy hen fuarth fferm. Fe ddowch allan mewn cae a dilynwch y gwrych ar y chwith i chi, i fynd dros gamfa i lôn. Trowch i'r chwith.

Dilynwch y lôn, heibio **Eglwys Llangwenllwyfo**, ar draws y lôn at **Stad Dulas**, i'r pen pellaf lle byddwch yn ymuno â **Moryd Dulas ('Dulas Estuary')**. Trowch i'r dde, dros ffos ddraenio wrth **Coch Willan Bach**, a dilynwch lannau'r foryd heibio **Min y Don**. Fe fyddwch yn mynd drwy faes parcio, ac yn ymuno â lôn. Yn weddol fuan, trowch i'r chwith (cyn y tŷ ar y dde i chi), dros bompren fechan a thrwy giât. Croeswch bompren fwy, a chroeswch lecyn o gors ac ewch drwy giât. Gan gerdded yn gyfochrog â llecyn isel o gors, anelwch at y bont fawr. Ar ôl cyrraedd pâr o gilbyst cerrig, trowch i'r chwith a chroeswch y bont drwy'r ddwy giât. Cerddwch i fyny'r cae, gan ddilyn y gwrych ar y chwith i chi, a chan fynd i'r chwith yn y pen uchaf i ddod i drac. Ewch drwy'r giât mochyn, ar hyd trac, a throwch i'r dde ar hyd y lôn at **Bentre Eiriannell**. Yn y ffordd fawr, trowch i'r chwith, ac i'r chwith unwaith eto yn y '*Pilot Boat Inn*', dros gamfa ac i fyny'r cae gyda therfyn y cae ar y chwith i chi.

Ym mhen uchaf y cae, ewch drwy giât, a chariwch yn syth ymlaen ar hyd trac. Ym mhen pellaf trac, ewch drwy giât arall, ac ar draws cae gan basio i'r chwith o bwl. Fe ddechreuwch fynd i lawr, drwy giât arall, a heibio porth. Ewch i'r chwith o amgylch llecyn bach wedi'i ffensio ac anelwch i lawr y rhiw tuag at y tŷ ar y dde at giât mochyn. Ewch drwy'r giât, ewch i'r dde ar hyd llwybr wedi'i ffensio, rhwng y tŷ a garej, i ddod allan ar lôn.

Trowch i'r chwith ar hyd y lôn a, lle mae'r lôn yn fforchio (ger tŷ **Tan y Banc**), cymrwch y llwybr sy'n fforchio i'r dde (yn syth yn eich blaen fwy neu lai). Yn **Penrhyn** ewch i'r chwith, ac i'r chwith eto i fynd ar lwybr. Dilynwch y llwybr caeedig i ddod allan ar **Draeth yr Ora**. Trowch i'r dde, rhan o'r ffordd i lawr y grisiau, ac yna gan fynd i'r dde, ewch i fyny set o risiau a thrwy giât. Ewch i'r chwith gan gadw at ymyl y cae a dilynwch y morlin ('*coastline*'). Ewch drwy giât ac i'r dde ar hyd y llwybr sydd wedi'i ffensio. Ewch i lawr i draeth **Porth y Môr** ac yna i fyny set o risiau oddi ar y traeth i fynd yn ôl ar lwybr wedi'i ffensio. Ewch heibio'r wylfa yn **Nhrwyn Porth y Môr**, croeswch bompren fechan drwy giât mochyn, i lawr ac i fyny set o risiau, i ddod allan yn **Llugwy**. Croeswch y maes parcio, gan fynd i'r dde ar hyd llwybr ar hyd ymyl y twyni. Ewch dros bompren goncridd,

ac yna bompren fawr. Ewch yn syth ymlaen drwy'r twyni (nifer o lwybrau sy'n eich arwain i'r un lle) i ddod allan i faes parcio arall gyda thoiledau a chaffi.

Croeswch y maes parcio, ewch heibio'r caffi, a chymrwch y llwybr gan anelu tua'r dwyrain. Ewch i lawr ac i fyny set o risiau, ar draws wal gynnal ('*revetment*') gan ddilyn llwybr caeedig. Ewch drwy giât mochyn, ar hyd ymyl chwith cae y tu ôl i **Borth Forllwyd**, drwy giât arall, gan fynd i'r chwith wrth y tŷ. Dilynwch y wal rownd, ewch drwy giât arall, ar hyd llwybr wedi'i ffensio, i fynd i'r dde gan ddilyn yr arfordir. Ewch drwy safle hen chwarel, i lawr ac i fyny ychydig o risiau, ac fe ddowch i lwybr ar y dde sy'n eich arwain at **gofeb y 'Royal Charter'**. Cariwch yn syth yn eich blaen, i lawr ychydig o risiau, gan groesi dwy nant, i fyny ychydig o risiau a thrwy giât i mewn i faes carafannau.

Edrychwch am giât mochyn i'r chwith a dilynwch y rhan gaeedig hyd oni ddewch at giât ac mae'n agor i'r penrhyn sy'n edrych dros **Ynys Moelfre**. Fe allwch fynd i'r chwith i fynd o gwmpas y penrhyn, os dymunwch wneud hynny. Wrth ddod oddi ar y penrhyn, fe fyddwch yn ymuno â'r lan yn **Y Swnt**.

Croeswch gefn y traeth, i fynd ar lwybr ag wyneb arno. Ewch i'r dde, gan groesi lôn i ddilyn y llwybr hwn heibio **Gorsaf y Bad Achub** a **Gwylfan Moelfre ('Seawatch Centre')**. Pasiwch hen orsaf y bad achub, heibio rhes o fythynnod, gan fynd i'r dde i ymuno â'r ffordd ym **Mhorth Moelfre**. Trowch i'r chwith ar hyd y lôn i gyrraedd glan y môr ym mhentref Moelfre.